# CYNEFINOEDD AR GYFER PEILLWYR

Mae pryfed peillio yn rhan hynod bwysig o unrhyw ecosystem gan fod eu gwasanaethau peillio yn darparu bwyd i fywyd gwyllt, da byw a ninnau. Yng nghefn gwlad Cymru, mae llawer o wahanol fathau o bryfed sy'n peillio blodau, gan gynnwys gwenyn, gloÿnnod byw, gwyfynod, gwenyn meirch, clêr a chwilod. Bydd y pryfed hyn i'w cael mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd ac mae eu gofynion yn gymharol syml. Mae angen planhigion blodeuol arnynt i gasglu neithdar ohonynt, gan mai dyma eu prif fwyd. Bydd rhai hefyd yn casglu paill i'w fwyta, ac ar yr adeg hon, sef pan fyddant wrthi'n casglu eu bwyd, y byddant yn trosglwyddo gronynnau paill o flodyn i flodyn, sy'n arwain at beillio. Bydd rhai o'r rhywogaethau hyn yn ddetholgar iawn ynghylch pa flodau y byddant yn ymweld â nhw tra bod eraill yn fwy cyffredinol eu natur.

Yn ogystal, mae angen lle addas ar y pryfed i nythu a magu eu hepil. Gallai hwn fod yn geudod gwag mewn coeden, coesyn planhigyn neu wal, neu gallai fod o dan y ddaear mewn clawdd. Mae rhai yn dodwy eu hwyau'n uniongyrchol ar blanhigion penodol y mae'r epil yn bwydo arnynt wedi hynny, tra bydd eraill yn gwneud nythod mewn twffiau o laswellt.

## CYNEFINOEDD AR DIR FFERM AR GYFER PEILLWYR

### GWRYCHOEDD



*Llun 1. Gwrych tal*

Mae gwrychoedd yn gynefinoedd gwych i beillwyr, yn ogystal â darparu bwyd a lloches i amrywiaeth eang o adar, mamaliaid a phryfed eraill. Mae gwrychoedd yn aml yn cynnwys amrywiaeth o blanhigion a choed, sy'n golygu eu bod yn apelio at amrywiaeth eang o bryfed. Mae rhywogaethau cyffredin mewn gwrychoedd yn cynnwys y ddraenen wen, y ddraenen ddu, celyn, coed afalau surion a choed cyll. Mae pob un o'r rhain yn darparu neithdar a phaill ar gyfer pryfed, yn y gwanwyn yn bennaf, gan fod y planhigion hyn ymhlith y rhai cynharaf yn y tymor i flodeuo. Mae hyn yn eu gwneud yn adnodd pwysig, gan fod y pryfed yn sefydlu eu nythod ac yn dechrau eu cylchoedd bridio. Yna, mae'r ffrwythau sy'n cael eu cynhyrchu'n ganlyniad i beillio gan y pryfed yn dod yn adnoddau bwyd pwysig ar gyfer rhywogaethau eraill, gan gynnwys adar a mamaliaid, sy'n dangos sut mae ecosystem yn datblygu.

### GLASWELLTIROEDD A DOLYDD



*Llun 2. Dolydd*

Mae glaswelltiroedd llawn rhywogaethau yn adnodd pwysig i sawl math o bryfed ond yn anffodus, mae'r math hwn o gynefin wedi prinhau'n aruthrol. Mae glaswelltiroedd a dolydd nad ydynt wedi'u gwella at ddibenion amaethyddol yn cael eu llenwi ag amrywiaeth o rywogaethau o laswellt a blodau sy'n darparu bwyd a safleoedd nythu drwy gydol y tymor. Mae rhywogaethau planhigion cyffredin ar ddolydd yr iseldir yn cynnwys llygad-llo mawr, y bengaled, meillion coch, pysen-y-ceirw a'r gribell felen. Ar ddolydd yr ucheldir, bydd amrywiaeth wahanol o rywogaethau gan gynnwys cneuen y ddaear, tresgl y moch, mantell Fair ac effros Lloegr. Yn ogystal, bydd y rhywogaethau glaswellt yn y dolydd hyn yn cynnwys perwellt y gwanwyn, rhonwellt y ci, byswellt a maeswellt cyffredin.

### RHOSTIROEDD



*Llun 3. Llus a Grug*

Mae Cymru wedi'i bendithio â rhai ardaloedd pwysig o rostir yr ucheldir. Nodweddir hyn gan gorlwyni gan gynnwys grug, llus, creiglus ac eithin. Mae gan rostir gwlyb blanhigion sy'n ychydig yn wahanol, gyda charpedi o figwyn, yn ogystal â grug croesddail, glaswellt y ceirw a glaswellt y gweunydd. Yn yr haf, mae'r planhigion hyn yn darparu bwyd a lloches ar gyfer amrywiaeth eang o bryfed y mae adar yr ucheldir, gan gynnwys yr ehedydd, y corhedydd a'r rugiar, yn ysglyfaethu arnynt.

## COETIROEDD, PRYSGWYDD A PHREN MARW



Llun 4. Cyrion coetir

Yn aml, ar gyrion coetiroedd a choedwigoedd neu mewn llennyrch y gwelwch y gweithgarwch mwyaf gan bryfed. Dyma lle mae planhigion fel mieri, y bengaled a'r helyglys hardd, sy'n hynod ddeniadol i bryfed pan fyddant yn blodeuo, yn ymledu. Mae'r lloches y mae'r ardaloedd coetir yn ei darparu yn bwysig fel safleoedd nythu neu aeafgysgu i'r pryfed llawndwf megis mamwenyn meirch a mamgacwn. Mae pren marw yn cael ei ffafrio gan lawer o bryfed sy'n creu tyllau i ddodwy eu hwyau. Mae hyn yn ei dro yn darparu adnodd bwyd pwysig i adar fel cnocell y coed.

## GWLYPTIROEDD



Llun 5. Llysiau'r milwr coch

Efallai nad yw gwlyptiroedd yn dod i'r meddwl wrth feddwl am bryfed peillio, ond maent yn darparu rhai cynefinoedd gwerthfawr ar ffurf afonydd, nentydd, ffosydd, pyllau, corstiroedd a chorsydd. Mae angen dŵr ar lawer o'r pryfed hofran sy'n peillio i gwblhau eu cylch bywyd ac maen nhw'n dodwy eu hwyau mewn dŵr bas lle mae'r larfa yn bwydo ar lystyfiant sy'n pydru. Mae llawer o'r blodau sy'n gysylltiedig â mannau gwlyb, corsiog, fel mintys y dŵr a llysiau'r-milwr coch, yn ddeniadol iawn i'r pryfed llawndwf ac yn darparu adnodd bwyd pwysig.

## CNYDAU AMAETHYDDOL



Llun 6. Y Godog

Mae llawer o gnydau amaethyddol sy'n dibynnu ar bryfed ar gyfer peillio, sy'n cynyddu cynnyrch ac ansawdd cnydau. Mae'r cnydau hyn yn cynnwys rêp had olew, ffa maes, pys a thafod yr ŷch. Er nad yw'r rhain efallai'n gyffredin ledled Cymru, mae mwy o ddiddordeb mewn tyfu pys a ffa fel cnydau protein ar ffermydd da byw, ac mae angen peillio'r rhain i gynhyrchu eu hadau. Mae codlysiau eraill fel meillion gwyn, meillion coch, y godog, bysedd y blaidd a liwsérn hefyd angen pryfed i'w peillio, ac mae'r planhigion hyn yn dod yn bwysicach mewn systemau cynhyrchu da byw. Mae gwndwn llysieuol yn ffynhonell arall o fwyd i bryfed peillio ac mae cynnydd yn y diddordeb gan ffermwyr sy'n chwilio am y manteision y gall gwndwn llysieuol eu rhoi i'w systemau.

## MANTAIS BRITHWAITH O GYNEFINOEDD



Llun 7. Blodau corsiog

Mae pob math o gynefin yn bwysig ar gyfer pryfed peillio a bywyd gwyllt arall. Bydd gan lawer o ffermydd nifer o'r mathau hyn o gynefin gan ddarparu brithwaith o adnoddau gyda phlanhigion sy'n blodeuo ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod cyflenwad parhaus o fwyd ar gyfer y pryfed drwy gydol y tymor. Trwy ddarparu cynefinoedd sy'n addas i bryfed peillio, bydd yn sicrhau bod y boblogaeth leol o bryfed ar gael i beillio'r cnydau sy'n cael eu plannu yn yr ardal leol.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**